

## TELERAU AC AMODAU, RHEOLAU, RHEOLIADAU A CHOD YMDDYGIAD, YNGHYD Â DIOLGEWCH A DATGAN RISGIAU (GWEITHGAREDDAU NAS HYFFORDDIR GAN DGRhC)

### Pwysig

Gall Rafftio Dŵr Gwyn, Canŵio, Caiacio, Antur Awyr, Ton Dan Do, Padlfyrddio, Dringo, Nofio Dŵr Agored, Hyfforddiant Achub Dŵr Cyflym a'r holl weithgareddau eraill sydd ar gael i'w cyflawni yn DGRhC fod â risgiau cynhenid. Dylech fod yn ymwybodol o'r risgiau a'u derbyn a bod yn gyfrifol am eich gweithredoedd a'ch cyfranogiad eich hun. Yn ogystal â'r Telerau ac Amodau Isod, Rheolau, Rheoliadau ac Ymddygiad a Datganiad Diogelwch a Risg y cyfeirir ato yma fel 'Telerau', rhaid i chi hefyd roi gwybodaeth ychwanegol cyn i chi gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau yn DGRhC, ar ffurf ymatebion i gwestiynau y cyfeirir atynt yma fel 'Pecyn Cwestiynau'. Mae'n rhaid i chi ddilyn pob hysbysiad, cyfarwyddyd a rhybudd a gyhoeddir ar ein safle neu a gyfathrebir i chi gan gynrychiolwyr DGRhC. Os nad ydych yn siŵr a allwch ddefnyddio'r cyfleusterau yn DGRhC yn unol â'r Telerau hyn, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Telerau hyn, y Pecyn Cwestiynau neu'r Ffurflen Archebu (lle bo'n berthnasol), gofynnwch i aelod o staff cyn i chi ymrwmo i gcontract gyda Ni. Gellir cysylltu â DGRhC trwy e-bostio [info@ciww.com](mailto:info@ciww.com) neu ffonio 029 2082 9970

### **1. Diogelu Data/Preifatrwydd**

- 1.1 Trwy gytuno i'r Telerau hyn, rydych yn cydsynio i Ddŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd brosesu eich data personol at ddiben neu er mwyn cymryd rhan mewn weithgareddau yn DGRhC. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg trwy gysylltu â ni yn [info@ciww.com](mailto:info@ciww.com)
- 1.2 Gall Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd brosesu eich data i ddiogelu eich buddiannau hanfodol mewn argyfwng neu i gydymffurfio â'n rhwymedigaeth gyfreithiol o ran Iechyd a Diogelwch.
- 1.3 Prosesir eich holl ddata personol yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich data personol, cyfeiriwch at bolisi preifatrwydd DGRhC yma [https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/Polisi\\_Preifatrwydd.pdf](https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/Polisi_Preifatrwydd.pdf)
- 1.4 Gallwch hefyd weld hysbysiad preifatrwydd llawn Cyngor Caerdydd yn <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>.
- 1.5 Efallai y defnyddiwn Deledu Cylch Cyfng i fonitro ein safle at ddibenion diogelwch ac er mwyn edrych yn ôl ar unrhyw ddiwyddiadau sy'n digwydd ar y safle.

### **2. Archebu a thalu**

- 2.1 Mae eich defnydd o gyfleuster DGRhC (a lleoliadau eraill oddi ar y safle lle bo'n berthnasol) yn amodol ar y Telerau hyn. Lle y bo'n briodol, bydd Ffurflen Llogi Cyfleuster wedi'i chwblhau a'i llofnodi a Rhestr Wirio Llogi Cyfleuster ynghyd â'r Telerau hyn a bydd eich ymatebion i'r Pecyn Cwestiynau yn gyfystyr â'r cytundeb rhyngoch chi ('y Cwsmer' y cyfeirir ato hefyd fel 'Cyfranogwr') neu'r person sy'n gwneud yr archeb ar eich rhan, a Ni.
- 2.2 Os ydych yn archebu ar ran grŵp, ystyrir bod "chi" ac "eich" yn cynnwys pob aelod o'r grŵp hwnnw. Yn ogystal, rydych chi, fel yr unigolyn sy'n archebu'r weithgaredd, yn cytuno i sicrhau bod pob aelod o'r tîm wedi darllen ac yn cytuno i gydymffurfio â'r telerau a'r amodau hyn.
- 2.3 Rhaid derbyn taliad llawn neu Ffurflen Llogi Cyfleuster wedi'i chwblhau a Rhestr Wirio Llogi Cyfleuster (lle bo'n briodol) cyn i chi ymgymryd ag unrhyw weithgaredd yn DGRhC.
- 2.4 Cyn defnyddio cyfleusterau DGRhC, bydd angen i'r holl gyfranogwyr ymateb i'r cwestiynau a ofynnir yn y Pecyn Cwestiynau. Ar ôl rhoi eich gwybodaeth, fel noddwr DGRhC, eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i DGRhC os bydd iechyd meddygol unrhyw un o'ch parti yn newid o'r pwynt archebu hyd at ddyddiad y gweithgaredd a drefnwyd.

### **3. Cansladau gennych chi**

- 3.1 Ni ellir ad-dalu unrhyw archeb ar ôl ei thalu ac ni ellir ei throsglwyddo. Os dymunech ganslo, cysylltwch â DGRhC trwy e-bostio [info@ciww.com](mailto:info@ciww.com) neu ffonio 029 2082 9970 i drafod ymhellach.

### **4. Cansladau gennym ni**

- 4.1 Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gweithgareddau DGRhC yn digwydd yn ôl yr amserlen. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i droi i ffwrdd yr holl Gwrs Dŵr Gwyn, Ton Dan Do, neu gyfyngu mynediad i'r Pwll Dŵr a Gedwir, y Wal Ddringo neu'r Antur Awyr a chau DGRhC ar unrhyw adeg heb rybudd oherwydd amodau a rhagolygon anaddas, tywydd gwael, neu oherwydd unrhyw ffactorau eraill i tu hwnt i'n rheolaidd neu os ydym yn teimlo bod risgiau mawr. Os digwydd bod DGRhC ar gau, yn unol â'r cymal hwn, cawn, yn ôl ein disgrisiwn ein hun yn unig, gynnig sesiwn arall neu ran o sesiwn heb godi ragor arnoch neu gynnig ad-daliad.
- 4.2 Os byddwch chi eisoes wedi dechrau eich weithgaredd yn DGRhC pan fydd wedi'i ganslo neu ei gau yn unol â chymal 2.1, byddwn yn cymryd unrhyw amser rydych eisoes wedi'i dreulio yn DGRhC i ystyriaeth wrth benderfynu sut i'ch digolledu yn y ffordd orau.

### **5. Ein Hatebolrwydd**

- 5.1 5.1 Ni fyddwn yn cyfyngu ein hatebolrwydd i chi ar gyfer unrhyw anaf personol (gan gynnwys marwolaeth), neu golled neu ddifrod i eiddo, y gallech ei ddioddef o ganlyniad i'n hesgeulustod. 5.2 Byddwn yn eich digolledu am unrhyw anaf personol (gan gynnwys marwolaeth), colled neu ddifrod i'ch eiddo y gallech ei ddioddef os byddwn yn methu â chyflawni'r dyletswyddau a osodwyd gennym gan y gyfraith oni bai bod yr anaf, colled neu ddifrod wedi digwydd oherwydd (i) eich bai chi; (ii) trydydd parti heb gysylltiad â'n darpariaeth gwasanaethau ni dan y cytundeb hwn; neu (iii) digwyddiadau na allem ni na'n cyflenwyr fod wedi'u rhagweld hyd yn oed pe bawn wedi cymryd pob gofal rhesymol. Yn achos (i) os gofynnir i chi gytuno i'n digolledu am unrhyw golled neu ddifrod a achosir o ganlyniad i'ch gweithred neu eich esgeulustod chi

### **6. Defnyddio cwch**

Wrth ddefnyddio eich cwch / offer eich hun eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau ei fod o ansawdd boddhaol ac yn addas i'r diben. Rhaid i chi sicrhau bod gennych yr offer diogelwch gofynnol e.e. offer diogelwch personol (ODP) priodol fel y nodir yn Rheolau, Rheoliadau ac Ymddygiad DGRhC. Rydym yn cadw'r hawl i wneud unrhyw wiriadau ar unrhyw gwch a/neu offer unrhyw adeg ac os na fyddant yn addas at y diben, gallwn ofyn i chi roi'r gorau i'w defnyddio yn DGRhC.

### **7. Cytuno i'r telerau hyn ar ran person arall**

- 7.1 Mae orfodol i bob person o dan 18 oed ("Dan 18 oed") fod rhiant neu warcheidwad cyfreithiol priodol yn cytuno i'r Telerau hyn ac yn darparu ymatebion i'r Pecyn Cwestiynau cyn cael cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn DGRhC.
- 7.2 Mae'n orfodol i riant/rieni, oedolyn/oedolion priodol, gwarcheidwad/gwarcheidwaid cyfreithiol neu ofalwr/ofalwyr gytuno i'r Telerau hyn ar ran unrhyw oedolyn nad yw'n gallu gwneud penderfyniad drosto'i hun neu nad yw'n gallu deall y risgiau mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd a darparu ymatebion i'r Pecyn Cwestiynau cyn cael cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn DGRhC.

### **8. Cadw at Reolau**

- 8.1 Mae'n rhaid i chi gydymffurfio bob amser yn llawn ac yn brydlon â Rheolau, Rheoliadau ac Ymddygiad DGRhC a phob rheoliad a chyfarwyddyd diogelwch a gyhoeddir gennym ni, ein staff a/neu ein hyfforddwyr o bryd i'w gilydd.
- 8.2 Mae'n rhaid i chi beidio â gwneud unrhyw beth (neu hepgor unrhyw beth) a fydd o bosibl yn achosi difrod neu golled i'n heiddo neu ein cyfleusterau neu achosi niwsans, blinder, aflonyddwch, anghyfleustra neu anaf i gyfranogwyr eraill neu unrhyw bobl eraill ar y safle.
- 8.3 Rydym yn cadw'r hawl i ddod ag arhosiad/ defnydd o'r cyfleusterau gan unrhyw berson(au) rydym yn ystyried yn rhesymol ei fod yn torri'r telerau a'r amodau 7.1, 7.2, 8.1 a/neu 8.2 hyn i ben, a gallai fod angen i'r person/au hyn adael DGRhC ar unwaith. Ni wneir unrhyw ad-daliadau os digwydd hyn, ac ni fyddwn yn derbyn atebolrwydd am unrhyw dreuliau, hawliau, colledion na chostau o ganlyniad i ddod â'r arhosiad/defnydd hwn i ben.

### **9. Cyffredinol**

- 9.1 Caniateir bwyta ac yfed yn y ffreutur a manau gwerthu bwyd dynodedig yn unig.
- 9.2 Ni chaniateir ysmegu a chyffuriau nad ydynt ar bresgripsiwn yn unman o fewn DGRhC gan gynnwys y maes parcio. Gwrthodir mynediad i unrhyw un sydd â'r fath eitemau yn ei feddiant neu sydd o dan eu dylanwad.
- 9.3 Ni chaniateir i unrhyw bersonau yr ystyrir eu bod o dan ddylanwad diod a/neu gyffuriau (ar ddisgrisiwn staff DGRhC yn unig) i ddefnyddio cyfleusterau DGRhC neu gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau. Ni roddir unrhyw ad-daliad.
- 9.4 Os hoffech chi anfon unrhyw hysbysiad neu lythron, dylech chi eu hanfon at y cyfeiriad ac at sylw'r person perthnasol rydych chi'n dymuno cysylltu ag ef. Os nad ydych yn siŵr at bwy y dylech anfon hysbysiad neu lythyr, anfonwch ef atom yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd, Ffordd Watkiss, Caerdydd CF11 0SY.
- 9.5 At ddibenion Deddf Contractau (Hawl Trydydd Partion) 1999, ni fwriedir i'r cytundeb hwn roi hawl i unrhyw berson nad yw'n rhan ohono i orfodi unrhyw un o'i ddarpariaethau, ac nid yw'r cytundeb yn gwneud hyn.
- 9.6 Caiff y cytundeb hwn ei lywodraethu a'i ddehongli gan gyfreithiau Cymru a Lloegr a bydd y partiön yn ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr.
- 9.7 Rhaid i ni gael gwybod am eiddo coll o fewn 6 wythnos, oherwydd caiff unrhyw eitemau eu gwaredu ar ôl y cyfnod hwn.

## RHEOLAU, RHEOLIADAU A CHOD YMDDYGIAD DGRHC

### **Cyffredinol**

1. Ni chaniateir i unrhyw un sydd dan effaith alcohol/cyffuriau gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd.
2. Ni allwn roi cyngor ynghylch a ddylech gymryd rhan mewn gweithgaredd ai peidio a dylech fod yn ofalus yn benodol os ydych wedi cael llawdriniaeth neu salwch diweddar, cyflwr y galon, anhwylderau gwddf, cefn neu esgyrn, pwysedd gwaed uchel neu ymlediaid neu unrhyw gyflwr tebyg arall. Os oes unrhyw amheuaeth neu bryder gennyh ynghylch eich gallu i gymryd rhan, dylech drafod â'ch meddyg neu ymarferydd meddygol arall.
3. Nid ydym yn argymhell eich bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn DGRhC os ydych yn feichiog, ond os ydych yn gwneud hynny, eich cyfrifoldeb chi fydd unrhyw ganlyniadau. Gweler yr wybodaeth am weithgareddau penodol i gael gwybod am ragor o gyfyngiadau.
4. **Mae'n bosib y bydd cyfyngiadau penodol ar weithgareddau unigol;** gweler isod.
5. Rhaid i chi ymddwyn yn unol â phob hysbysiad, cyfarwyddyd a rhybudd sydd ar y safle neu sydd wedi ei gyfleu i chi gan gynrychiolwyr DGRhC.
6. Cadwch eich dwylo a'ch coesau draw o rannau sy'n symud ac arhoswch yn llonydd ar y belt cludo sy'n mynd â chi i ddechrau'r cwrs dŵr gwyn.
7. Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd DGRhC arnoch cyn defnyddio unrhyw gwch/offer.
8. Bydd rhaid i hyfforddwyr/sefydliadau nad ydynt o DGRhC gwblhau "ffurflen llogi'r cyfleuster" a "rhestr wirio'r cyfleuster" cyn defnyddio'r cyfleuster.
9. Mae Staff DGRhC yn cadw'r hawl i ofyn i unrhyw un ddael y safle, heb ad-daliad.
10. Mae'n rhaid i bob un sy'n cymryd rhan gwblhau'r ffurflenni perthnasol cyn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn DGRhC.

### **Parcio a Chwarae**

1. Mae'n rhaid i holl ddefnyddwyr Parcio a Chwarae archwilio'r cwrs a bod yn fodlon ar eu gallu personol i badlo yn yr amodau presennol.
2. Mae'n rhaid i holl ddefnyddwyr Parcio a Chwarae allu achub eu hunain os ydy'r cwch yn troi ben i waered.
3. Mae'n rhaid i holl ddefnyddwyr Parcio a Chwarae wisgo bib arnofio dwr gwyn (yn unol â safonau ISO 12402-5 neu 393 EN) a helmed addas (yn unol â safon 1385 EN) mewn dwr sy'n llifo.
4. Mae'n rhaid i bob defnyddiwr Parcio a Chwarae allu nofio mewn dwr sy'n llifo, gyda chymorth bib arnofio.
5. Ni chaniateir nofio bwriadol yn y sianelau dwr gwyn (oni bai bod hynny'n rhan o gwrs hyfforddi cydnabyddedig wedi ei drefnu ymlaen llaw).
6. Ni chaniateir bagiau taflu ar y cwrs dwr gwyn (oni bai bod hynny'n rhan o gwrs hyfforddi cydnabyddedig wedi ei drefnu ymlaen llaw).
7. Cychod sy'n teithio'n groes i'r llif sydd bob tro â blaenoriaeth. Sicrhewch eich bod yn edrych cyn gadael y trobwl.
8. Os ydych yn gweld cwch arall mewn trafferth, helpwch neu rhowch wybod i rywun a all helpu.
9. Cychod wedi eu creu er mwyn bod mewn dwr sy'n llifo yn unig a ganiateir yn y sianel.
10. Rhaid gwisgo bibiau bob amser, a rhaid bod yn weladwy wrth badlo yn DGRhC.
11. Os nad ydych yn dychwelyd y bib, mae ffi o £50.

### **Gweithgareddau Heb Hyfforddwr DGRhC**

1. Mae rhaid i bob defnyddiwr DGRhC heb hyfforddwr allu nofio mewn dwr sy'n llifo (pan mae'n berthnasol) gyda chymorth arnofio.
2. Rhaid gwisgo bibiau arnofio ger neu ar y dwr.
3. Os ydych yn dewis defnyddio eich cwch eich hun yn y Cyfleuster, eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau bod pob cwch o safon ac addas at y diben. Rhaid i chi sicrhau bod gennyh yr holl offer diogelwch angenrheidiol h.y. offer amddiffynnol personol priodol, cymhorthyn arnofio, harneisi, helmed briodol.

### **Ton Dan Do**

RHYBUDD! Mae'r llawr yn hynod o lithrig. PEIDIWCH Â cheisio cerdded ar arwyneb y reid. Dim ond ar ôl dod i stop llwyr ar y rhwyll ddraen las dywyll y cewch sefyll i gerdded a gadael.

2. Mae'n rhaid i holl ddefnyddwyr OpenSurf archwilio'r ardal Ton Dan Do trwy edrych arno a bod yn fodlon ynghylch eu gallu personol a chorfforol i syrffio.
3. Peidiwch â chymryd rhan os yw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:
  - **Wedi cael llawdriniaeth neu wedi bod yn sâl yn ddiweddar**
  - **Cyflwr ar y galon**
  - **Anhwylderau gwddf, cefn neu esgyrn.**
  - **Pwysau gwaed uchel neu ymlediaid**
  - **Beichiog**
4. Dylid gwisgo dillad addas ar gyfer y gweithgaredd bob amser. Ni chaniateir gemwaith, hetiau, esgidiau o unrhyw fath, ewinedd hir, sbectol na goglau, nac unrhyw eitem rydd arall ar y reidiau oherwydd perygl anafiadau.
5. Peidiwch â neidio i mewn i'r reid na mynd iddi ar wib; peidiwch â rhoi eich pwysau ar y droed flaen - cwmpo a wnewch chi! (OpenSurf yn unig)
6. Mae'n rhaid i holl ddefnyddwyr OpenSurf allu achub eu hunain os ydyn nhw'n cwmpo. Os ydych chi'n cwmpo, peidiwch â dal i afael yn eich bwrdd. Gollyngwch y bwrdd yn syth, gorchuddiwch eich pen a chadwch eich coesau a'ch breichiau'n dynn at eich corff. Paratowch at y gwrthdrawiad, eich traed yn gyntaf.
7. Dim ond syrffio unigol ar droed a ganiateir (OpenSurf yn unig). Dim ond gyda byrddau corff y caniateir syrffio pâr.
8. Mae hon yn reid galed iawn. Mae'n rhaid i bob defnyddiwr fod yn gyfrifol am ei ddiogelwch ei hun mewn dŵr gwyllt sy'n symud yn gyflym.
9. Mae rhaid i chi fod o leiaf 107cm o dal er mwyn defnyddio bwrdd corff ac o leiaf 132cm er mwyn syrffio ar eich traed (OpenSurf yn unig).

## DATGANIAD DIOGELWCH A RISG

**Drwy gytuno i'r Telerau hyn, cytunaf â'r datganiadau isod;**

**Rwy'n deall, wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau, y byddaf yn agored i lawer o beryglon ac y bydd y gweithgareddau hynny'n cynnwys risg o ddfrod neu golli eiddo a hyd yn oed anaf personol, salwch neu farwolaeth. Er bod DGRhC yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fy niogelwch, rwy'n deall na allant fod yn atebol am fy ngweithredoedd fy hun, y mae'n rhaid i mi fod yn gyfrifol amdanynt, neu am rai trydydd parti.**

Nid oes gennyf salwch neu gyflwr meddygol heblaw am y rhai hynny sydd wedi'u nodi ar y Pecyn Cwestiynau. Er gwaetha'r cyflyrau hyn rwy'n ddigon ffit, abl a chymwys i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau yr wyf wedi dod i Ganolfan Dwr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd i gymryd rhan ynddynt.

Lle bo'n berthnasol, rwy'n hyderus yn nofio mewn dwr sy'n symud ac yn cydnabod y gall y gweithgareddau gynnwys nofio mewn dwr tyrfol sy'n symud yn gyflym.

Mae fy offer / cwch personol yn briodol i'w defnyddio yn DGRhC ac maen nhw'n ffitio'n iawn. Rwy'n cydnabod bod DGRhC yn cadw'r hawl i gynnal gwiriadau ar fy offer ar unrhyw bryd ac os nad ydynt yn addas gall y ganolfan fy atal rhag defnyddio'r offer.

Rwy'n deall y bydd staff DGRhC yn rhoi help a chyngor i mi lle gallant, a byddaf ond yn cael cyfarwyddiadau o ran defnyddio offer neu dechnegau ar ôl i mi drefnu a thalu ar gyfer cyfarwyddiadau o'r fath gan Staff DGRhC. Ni fyddaf yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau nac yn defnyddio unrhyw offer heb oruchwyliaeth os nad wy'n hyderus yn fy ngallu i wneud hynny.

Os wyf yn gwneud gweithgaredd ar y Cwrs Dwr Gwyn yn DGRhC, rwy'n cadarnhau fy mod yn ddigon profiadol i badlo / nofio yn yr amgylchedd hwn.

Os rwy'n gwneud sesiwn Ton Dan Do, rwy'n cadarnhau fy mod dros 107cm i gorff-fyrddio a thros 132cm i fyrddio ar fy sefyll. Rwyf wedi gweld yr ardal Syrffio Dan Do ac yn deall lefel y llif a'r lefel anhawster. Rwy'n cadarnhau fy mod yn ddigon profiadol i syrffio yn yr amgylchedd hwn.

Drwy gytuno i'r telerau hyn, rydych yn cytuno â'r pwyntiau a nodir ym Mholisi Preifatrwydd DGRhC. Mae hwn i'w weld ar ein gwefan yn [https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/Polisi\\_Preifatrwydd.pdf](https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/Polisi_Preifatrwydd.pdf)

Drwy gytuno i'r telerau hyn, rydych yn cytuno â'r pwyntiau a nodir yn y Wybodaeth am Ansawdd Dŵr Afon Elai sydd i'w gweld ar ein gwefan yn [https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/GWYBODAETH\\_AM\\_ANSAWDD\\_DWR\\_AFON\\_ELAI\\_DGRhC.pdf](https://www.dgrhc.com/uploads/TCs/GWYBODAETH_AM_ANSAWDD_DWR_AFON_ELAI_DGRhC.pdf)